



Palasau Hwyl ac Arts Award

Palasau Hwyl ac Arts Award

Mae Palasau Hwyl yn cefnogi pobl leol i roi diwylliant wrth wraidd cymuned a chymuned wrth wraidd diwylliant.

Mae [Arts Award](#) yn ystod o gymwysterau unigryw sy'n cefnogi unrhyw un hyd at 25 oed i dyfu fel artistiaid ac arweinwyr celfyddydau, gan ysbrydoli nhw i gymryd rhan yn a chysylltu â'r byd celfyddydau ehangach trwy ymgymryd â heriau ar ffurf celfyddydau - o ffasiwn i gelf ddigidol, o farddoniaeth i grochenwaith.

Mae'r ddau sefydliad yn credu bod gan bawb allu a photensial creadigol, ac y dylid cynnig cyfleoedd iddynt ei ddarganfod a'i ddatblygu - mae Arts Award yn canolbwyntio ar bobl dan 25 oed, Palasau Hwyl ar bob oedran - ac rydym yn croesawu gweithio ar y cyd fel cyfle i gael mwy o weithgareddau rhwng y cenedlaethau ac wedi'u harwain gan ieuenctid.

Yn 2021 cynhelir penwythnos gweithredu Palasau Hwyl ar 1, 2 a 3 Hydref, gyda phob Palas Hwyl yn para unrhyw beth rhwng dwy awr a dau ddiwrnod.

Dyma fideo gan [Sage Gateshead](#) am y bobl ifanc o [Ysgol Whickham](#) a'u gweithgareddau Palas Hwyl/Arts Award yn 2019.

Ydych chi'n Grëwr Palas Hwyl?

Mae'r lleoedd sy'n rhedeg Arts Award, a adwaenir fel canolfannau, yn cynnwys sefydliadau celfyddydau a diwylliant o bob maint, sefydliadau cymunedol ac ysgolion. Ym mhob un mae rhywun a hyfforddir fel ymgynghorydd Arts Award sy'n cefnogi pobl ifanc i gwblhau eu dyfarniad.

Os ydych yn chwilio am bobl ifanc yn eich ardal i gymryd rhan yn eich Palas Hwyl, cysylltwch â'r canolfannau Arts Award lleol - gallwch ddod o hyd iddynt ar y map canolfannau.

Mae unrhyw un sy'n gwneud Arts Award yn datblygu eu sgiliau creadigol ac ar y lefel Efydd mae'n rhaid i bobl ifanc rannu eu sgiliau gyda phobl eraill: Mae Palasau Hwyl yn cynnig cyfle gwyh i wneud hyn.



Oes angen cymorth ychwanegol arnoch i drefnu eich Palas Hwyl? Ar gyfer y dyfarniadau Arts Award Arian ac Aur, mae pobl ifanc yn cymryd rhan wrth reoli prosiectau celfyddydau ac mae bod yn Grëwr Palasau Hwyl yn rhoi profiad go iawn iddynt.

Ydych chi'n ymgynghorydd Arts Award?

Mae Palasau Hwyl yn cael eu rhedeg gan Grewyr, pobl leol sydd yn aml yn wirfoddolwyr, sy'n trefnu ac yn rhedeg eu Palas Hwyl cymunedol lle mae aelodau'r gymuned yn rhannu eu sgiliau diwylliannol ac angerdd dros y celfyddydau, gwyddoniaeth, crefftau, technoleg, digidol, treftadaeth a chwaraeon.

Mae'r holl Balasau Hwyl yn croesawu pobl o bob oedran i rannu eu sgiliau creadigol gyda'u cymuned leol, sy'n berffaith i Efydd Rhan D. Gall sesiynau rhannu sgiliau ddigwydd nifer o weithiau yn ystod y Palas Hwyl, gan alluogi pobl ifanc i ddysgu wrth iddynt fwrw ymlaen neu i bawb mewn grŵp rannu eu sgîl.

Gallai fod angen cymorth ar grewyr i drefnu eu Palas Hwyl, gan ddarparu cyfleoedd rheoli prosiectau celf i bobl ifanc sy'n gwneud eu dyfarniad Arts Award Aur ac Arian.

